Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): crynodeb o'r arolwg

Ionawr 2019

Papur 1 Dadansoddiad o'r arolwg
Paper 1 Survey analysis

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wrthi'n craffu ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf. Fel rhan o'i waith craffu yng Nghyfnod 1, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg a oedd yn canolbwyntio ar Ran 3 o'r Bil - Hybu mynediad at Lywodraeth Leol.

## Hyrwyddo'r arolwg a'i ddadansoddi

Nod yr arolwg oedd clywed gan ystod mor amrywiol o ddinasyddion Cymru â phosibl. Hyrwyddwyd yr arolwg yn helaeth drwy amrywiaeth o gyfryngau: -

- Drwy rwydweithiau rhanddeiliaid allweddol;
- Ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol; Roedd hyn yn cynnwys hysbysebion â ffocws a oedd yn ein galluogi ni i dargedu cynulleidfaoedd mewn ardaloedd lle mae'r gyfradd ymateb yn dueddol o fod yn llai.
- Anogwyd ymwelwyr â'r Senedd a'r Pierhead i lenwi'r arolwg;
- Pobl a oedd yn cymryd rhan yn ymweliadau Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad a sesiynau allgymorth. Drwy wneud hyn, sicrhawyd nad sampl hunan-ddewisol pur oedd yr ymatebion a gafwyd.

Er mwyn llunio'r crynodeb hwn, cynhaliwyd dadansoddiad o'r gyfres ddata gyflawn; gellir priodoli'r holl ddata i ymatebion unigol, a gellir

dadansoddi ymhellach ar gais. Ymdrinnir â phob cwestiwn yn yr arolwg yn ei dro.

Caiff y canlyniadau eu cyfrifo yn ôl nifer y bobl a ymatebodd i'r cwestiwn penodol, nid nifer y bobl a ymatebodd i'r arolwg yn gyffredinol. Cafwyd cyfanswm o **511 o ymatebion**.

## 1. A wnaethoch bleidleisio yn yr etholiadau llywodraeth leol diwethaf yng Nghymru ym mis Mai 2017?

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, pleidleisiodd **82.5 y cant** ohonynt yn yr etholiadau llywodraeth leol diwethaf, atebodd **16.3 y cant** 'naddo', a dywedodd **1.2 y cant** nad oeddent yn gwybod.

## 2. Wrth feddwl am sut mae llywodraeth leol yn gweithredu, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:

> ***"Rwy'n deall sut mae fy nghyngor yn gwneud penderfyniadau ac yn craffu arnynt."***

Atebodd **42.7 y cant** eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn; roedd **34.8 y cant** yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, a dywedodd **22.6 y cant** nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad hwn.

## 3. Wrth feddwl am eich gallu i ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan eich cyngor, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:

> ***"Rwy'n teimlo fy mod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan fy nghyngor"***

Atebodd **70.1 y cant** eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn; roedd **14.2 y cant** yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, a dywedodd **15.8 y cant** nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad hwn.

## 4. A ydych erioed wedi rhoi eich barn i'r cyngor/wedi cyfrannu at ymgynghoriad cyngor?

Atebodd **60.4 y cant** eu bod wedi rhannu eu barn â'r cyngor a/neu wedi cyfrannu at ymgynghoriad cyngor, a nododd **36.8 y cant** nad oeddent erioed wedi gwneud hynny; gyda **2.8 y cant** yn nodi nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi gwneud hynny.

## 5. Beth oedd y maes y gwnaethoch roi eich barn arno gyda'r cyngor/pwnc ymgynghoriad(au) y cyngor y gwnaethoch chi gyfrannu ato? (Cafodd ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn)

Rheoli gwastraff (**43.5 y cant**) a phriffyrdd a thrafnidiaeth (**42.8 y cant**) yw'r pynciau a gafodd y nifer fwyaf o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Yn dilyn y rhain y daeth addysg (**33.6 y cant**), gwasanaethau hamdden a diwylliannol (**31.9 y cant**), tai (**23.3 y cant**) ac yna gwasanaethau cymdeithasol (**23 y cant**). O ran y **28.1 y cant** a ddewisodd '*Arall (rhowch fanylion)*', dyma isod rai o'r atebion mwyaf cyffredin (noder bod y rhain yn sampl o'r holl ymatebion a gafwyd. Mae'r holl ymatebion ar gael ar gais.):-

- *Cynllunio.*
- *Cyllideb.*
- *Yr amgylchedd a newid hinsawdd.*

## 6. Sut gwnaethoch chi roi eich barn i'ch cyngor/cyfrannu at ymgynghoriad(au) y cyngor? (Cafodd ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn)

Yr opsiynau mwyaf poblogaidd o'r rhai a ddewiswyd oedd *'Ar-lein - er enghraifft, drwy e-bost neu fwrdd trafod ar-lein'* (**47.6 y cant**), *'Arolwg neu holiadur'* (**41.4 y cant**) a *'Cyfarfod - er enghraifft, cyfarfod cyhoeddus neu gyfarfod â chynghorydd'*(**40.4 y cant**).

Dewisodd **30.8 y cant** o'r ymatebwyr *'Yn ysgrifenedig - er enghraifft, llythyr'*, gydag **16.1 y cant** yn dewis *'Deiseb'*, a **15.8 y cant** yn dewis *'Ar y ffôn'* a **9.9 y cant** yn dewis *'Grŵp ffocws neu drafodaeth bord gron'*.

Dewisodd **0.3 y cant** '*Wn i ddim*' a nododd **6.5 y cant** '*Arall (rhowch fanylion)*'. O'r rhai a ddewisodd '*Arall*', cafwyd yr ymatebion a ganlyn: -

- *Apiau (ap Fixmystreet, ap yr awdurdod lleol).*
- *Drwy'r wasg leol.*
- *Drwy broses ymgynghori cyhoeddus y Cyngor.*

## 7. Beth fyddai'n eich annog i roi eich barn i'ch cyngor/cyfrannu at ymgynghoriad y cyngor? (Cafodd ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn)

*'Canllawiau ar sut y gallaf roi fy marn'* (**60.9 y cant**) a *'Rhagor o wybodaeth am sut mae fy nghyngor yn gwneud penderfyniadau'* (**57.7 y cant**) oedd yr atebion mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn.

Dewisodd **52.4 y cant** o'r ymatebwyr *'Sicrwydd/tystiolaeth y bydd fy marn yn cael ei hystyried'*, gyda **45.5 y cant** yn dewis *'Y gallu i ddewis sut rydw i'n rhoi fy marn (er enghraifft, yn ysgrifenedig, grŵp ffocws, deiseb, ac ati)*, a **43.9 y cant** yn dewis *'Pe bawn i'n teimlo'n arbennig o gryf am y pwnc'*. Dewisodd **39.7 y cant** yr ymateb *'Rhagor o fynediad i gyfarfodydd y cyngor i ddeall sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.'*

Dewisodd **3.2 y cant** yr ymateb *'Dim byd - does gen i ddim diddordeb mewn rhoi fy marn'* a nododd **2.7 y cant** *'Wn i ddim'*. O ran y **2.7 y cant** a ddewisodd *'Arall (rhowch fanylion)'*:

> *"More marketing when it's possible to contribute to decision-making. Better explanation on how to contact my local member."*
>
> *"Your Wales is a great way to give feedback."*

## 8. Yn eich barn chi, beth yw'r rhwystrau i chi ymgysylltu â'ch cyngor? (Cafodd ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn)

*'Nid wyf yn credu y bydd fy marn yn gwneud unrhyw wahaniaeth'* (**56.6 y cant**) a *'Diffyg gwybodaeth am sut mae'r cyngor yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau'* (**53.1 y cant**) oedd yr atebion mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn.

Dewisodd **31 y cant** yr ymateb *'Rwy'n ansicr sut y gallaf roi fy marn i'r cyngor '*, a dewisodd **15.9 y cant** *'Nid wyf yn gallu gweld cyfarfodydd y cyngor'*.

Atebodd **2.6 y cant** *'Wn i ddim', gydag* **8.4 y cant** yn nodi nad oeddent yn credu bod rhwystrau iddynt ymgysylltu â'u cyngor. I'r rhai a ddewisodd *'Arall (rhowch fanylion)'*, (**13.8 y cant**), dyma isod rhai o'r atebion mwyaf cyffredin a roddwyd. Mae pob ymateb ar gael ar gais: -

> **Cyfathrebu**
>
> *"The council will listen carefully then do whatever it likes."*
>
> *"Council members don't listen"*
>
> *"Just feel they don't listen, they ignore emails or reply about something completely different."*

**Llythrennedd digidol**

*"As a former Council employee I have knowledge of how the local authority functions and the technology to be able to go looking for consultations/surveys. Others may not be part of the same networks. While everything is advertised online, if not digitally literate or proactive then you wouldn't see these opportunities to get involved."*

**Ymgysylltu**

*"Lack of evening and weekend engagement – so constantly not geared to those who are working, or only one event is held on one evening – very limiting, to reflect the number of people who are working – more events/engagement/consultation needs to be held out of the working week"*

*"I don't think they make it easy to engage – technical documents, vague proposals, lack of action from councillors to really engage etc."*

## 9. Beth fyddai'ch hoff ddull o roi eich barn i'r cyngor?

'*Ar-lein - er enghraifft, trwy e-bost neu fwrdd trafod ar-lein*' (**43.3 y cant**) oedd yr ateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn.

Dewisodd **20.8 y cant** yr ymateb '*Arolwg neu holiadur* ', gyda '*Cyfarfod - er enghraifft, cyfarfod cyhoeddus neu gyfarfod â chynghorydd* ' (**10.7 y cant**) a '*Grŵp ffocws neu drafodaeth bord gron*' (**10.5 y cant**) fel yr atebion mwyaf cyffredin nesaf.

Yr atebion a ddewiswyd leiaf aml oedd '*Yn ysgrifenedig - er enghraifft, drwy lythyr*' (**5.1 y cant**), '*Deiseb*' (**2.1 y cant)** a '*Ar y ffôn* ' (**1.9 y cant**). Dewisodd **1.3 y cant** yr ymateb '*Wn i ddim*'.

O'r **4.3 y cant** o bobl a ddewisodd '*Arall (rhowch fanylion)*', dyma isod gipolwg ar yr atebion a roddwyd.

*"Submission of views at Hwbs, community centres, churches, mosques, youth clubs, schools. This would need a good communication system regularly updated with feedback."*

*"Facebook page so it's open for all to see and comment on or add to"*

*"There needs to be a complete review of planning regulations and procedures. Presently they seem designed to actively prevent any normal citizen and even councillors from having any influence over far reaching local decisions."*

## Demograffeg ymatebwyr yr arolwg

### Lleoliad

Nododd **49.1 y cant** o ymatebwyr yr arolwg eu bod o Dde Cymru, nododd **19.6 y cant** eu bod o Ganolbarth a Gorllewin Cymru a nododd **31.1 y cant** eu bod o Ogledd Cymru.

### Oedran

Roedd **12.2 y cant** o'r ymatebwyr yn 25 oed neu'n iau, roedd **59.3 y cant** rhwng 26 a 64 oed, ac roedd **27.7 y cant yn** 65 oed neu'n hŷn. Dewisodd **0.9 y cant** yr ymateb *'Mae'n well gen i beidio â dweud'.*

### Rhyw

Dewisodd **53.4 y cant** o'r ymatebwyr yr opsiwn 'Benyw', a dewisodd **42.7 y cant** yr opsiwn 'Gwryw'. Nododd **3.5 y cant** ei bod yn well ganddynt beidio â dweud, a nododd **0.4 y cant** eu term eu hunain.

### Pobl drawsryweddol

Nododd **0.9 y cant** o'r ymatebwyr eu bod yn ystyried eu hunain yn drawsryweddol, a nododd **4 y cant** ei bod yn well ganddynt beidio â dweud. Nid oedd y **95.1 y cant** sy'n weddill yn ystyried eu hunain yn bobl drawsryweddol.

### Rhywioldeb

Nododd **74.2 y cant** o'r ymatebwyr eu bod yn heterorywiol.

Dewisodd **4.4 y cant** yr opsiwn '*Deurywiol*' a dewisodd **3 y cant** yr opsiwn '*Hoyw/lesbiaidd (neu "Cyfunrywiol")*.

Roedd yn well gan **14.8 y cant** beidio â dweud, a dewisodd **3.7 y cant** o'r ymatebwyr eu term eu hunain.

### Ethnigrwydd

Dewisodd **90.8 y cant** o'r ymatebwyr y categori *'Gwyn' i ddisgrifio eu hunain.*

Nododd **1.3 y cant** o’r ymatebwyr *'Grwpiau ethnig cymysg/aml-ethnigrwydd'*, gyda **0.4 y cant** yn disgrifio'u hunain yn *'Asiaidd'* a **0.2 y cant** yn dewis *'Du/Affricanaidd/Caribïaidd'.* Dewisodd **0.9 y cant** yr opsiwn *'Grŵp ethnig arall'*, gyda **6.4 y cant** yn dewis peidio â dweud.

## Anabledd

O’r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, nododd **66.4 y cant** nad oedd ganddynt gyflwr neu anabledd iechyd corfforol neu feddyliol hirsefydlog. Dewisodd **8.1 y cant** beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

O'r **25.6 y cant** o ymatebwyr ag anableddau, dewisodd **50.4 y cant** '*Corfforol* ' a dewisodd **44.4 y cant** *'Iechyd meddwl'*. Nododd **35.9 y cant** fod ganddynt gyflwr meddygol (e.e. canser, MS). Dewisodd **9.4 y cant** o’r ymatebwyr *'Nam ar y synhwyrau'*, gyda **0.9 y cant** yn nodi *'Anabledd dysgu'*. Roedd yn well gan **2.6 y cant** beidio â dweud.